

CYNGOR I GWMNÏAU BYSIAU

Amgueddfa Cymru – Mehefin 2021

Annwyl Weithredwr,

Rydym wedi meithrin perthynas ardderchog gyda chwmnïau bysiau a threfnwyr ymweliadau grŵp dros y blynyddoedd, ac rydym wrth ein bodd fod cymaint ohonoch eisiau cyflwyno eich cleientiaid i brofiadau amrywiol ein saith amgueddfa.

Fodd bynnag, oherwydd COVID-19, rhaid i ni reoli'r ymweliadau hyn ychydig yn wahanol.

Rydym yn monitro rheoliadau Llywodraeth Cymru ar ymgynnull tu allan a gweithgareddau wedi'u trefnu, ac wedi llunio ein hymateb yn unol â'r rheoliadau.

Rydym yn deall na fydd hyn yn diwallu anghenion pawb, ond er diogelwch staff ac ymwelwyr teimlwn ei bod yn bwysig i ni allu rheoli niferoedd ac ymddygiad ymwelwyr yn y ffyrdd yma:

- I reoli ein systemau diogelwch a chapasiti, gan ein bod yn cyfyngu nifer y dyddiau mae ein Hamgueddfeydd ar agor. Fodd bynnag, o 28 Mai 2021, bydd Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn dychwelyd at y dyddiau agor arferol cyn COVID-19. Bydd yr Amgueddfeydd ar agor, gan gynnwys ar Ŵyl y Banc.
- Gallwn ganiatáu grwpiau o hyd at 30 (gan gynnwys gyrrwr, arweinydd ac ati) i archebu tocynnau i'n hamgueddfeydd (heblaw am Amgueddfa Wlân Cymru sydd â chapasiti o 20 ar gyfer grwpiau). **Rhaid i bob grŵp archebu ymlaen llaw.** Bydd angen i chi gyflwyno asesiad risg i'r Amgueddfa er mwyn dangos eich bod yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar drafnidiaeth gyhoeddus a grwpiau. Gweler y canllawiau yn: <https://llyw.cymru/ailddechrau-trafnidiaeth-gyhoeddus-canllawiau-i-weithredwyr>
- Rhaid i bawb yn y grŵp ymddwyn fel unigolion/aelwydydd ar wahân pan fyddant ar y safle a dilyn y rheolau cyffredin ar ymbellhau cymdeithasol. Mae hyn yn golygu na allant ymgynnull mewn grŵp o fewn yr Amgueddfa am unrhyw reswm. Rhaid iddynt giwio i fynd mewn fel unigolion neu aelwydydd ar wahân, ymweld â'r Amgueddfa fel unigolion neu aelwydydd ar wahân a dilyn rheolau ymbellhau cymdeithasol bob amser, a phaidio ymgynnull fel grŵp eto nes maent wedi gadael yr Amgueddfa.

- Disgwyliwn i grwpiau taith ymddwyn fel unigolion neu aelwydydd ar wahân hyd yn oed pan maent mewn Amgueddfa awyr-agored fel Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru.
- Allwn ni ddim caniatáu mwy nag un ymweliad grŵp y dydd ym mhob amgueddfa, er mwyn ein galluogi i reoli capasiti pob amgueddfa yn ddiogel.
- Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru, rhaid i bawb wisgo gorchudd wyneb mewn gofodau dan do yn ein Hamgueddfeydd.
- Bydd y toiledau ar agor ym mhob safle. Byddant yn cael eu glanhau yn amlach.
- Rhaid i bob archeb grŵp gael ei gwneud ymlaen llaw - ni fyddwn yn rhoi mynediad i unrhyw un sydd heb archebu ymlaen llaw.

Oherwydd COVID-19 ni allwn ragweld pryd fydd ein rheolau ar ymweliadau grŵp yn newid, ond gobeithio y byddwch eisiau dod i'n gweld ni'n fuan. Fel y gallwch ddeall, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn newid yn rheolaidd. Allwn ni ddim cymryd cyfrifoldeb ariannol neu fel arall os oes rhaid i ni ganslo eich ymweliad oherwydd COVID-19.

Rydym wedi ateb rhai o'ch cwestiynau isod, ond mae croeso i chi gysylltu â ni i holi unrhyw beth.

Archebu

Ar hyn o bryd gofynnwn i chi archebu ymweliad grŵp yn y ffordd arferol. Mae hyn yn golygu cysylltu â rhywun ar y safle. Rydym yn symud tuag at system Eventbrite, a byddwn yn rhoi gwybod i chi pan fydd y system honno'n rhedeg. Yn y cyfamser y ffordd orau o gysylltu â ni fydd ar gyfeiriad e-bost pob amgueddfa:

Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Caerdydd:

addysg.sainffagan@amgueddfacymru.ac.uk

Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd: addysg@amgueddfacymru.ac.uk

Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe: glannau@amgueddfacymru.ac.uk

Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis: llechi@amgueddfacymru.ac.uk

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion: rufeinig@amgueddfacymru.ac.uk

Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru: bigpit@amgueddfacymru.ac.uk

Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre: gwlân@amgueddfacymru.ac.uk

Dyddiau Ail-agor

Fodd bynnag, ni allwn gynnig yr un nifer o ddyddiau agor ym mhob amgueddfa ag o'r blaen, a gallai rhai rhannau o bob Amgueddfa aros ar gau. Mae'r grid hwn yn rhoi dyddiau agor pob Amgueddfa, ac unrhyw newidiadau sylweddol i'r profiad o ymweld. Mae natur ymweliad yn newid yn gyson, felly edrychwch ar y wefan am fanylion newydd. Mae rhai Amgueddfeydd yn cynnig ymweliad "diwrnod cyfan", ac eraill yn cynnig slot gydag amser cyrraedd a gadael. Bydd hyn i'w weld ar ein safle archebu.

Amgueddfa/Safle	Dyddiau ar agor bob wythnos am y tro	Newidiadau i'r Ymweliad
Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru, Caerdydd	Saith diwrnod yr wythnos.	Mae'r amgueddfa ar agor, gan gynnwys yr orielau <i>Byw a Bod a Cymru...</i> Mae'r prif gaffi a'r stondinau lluniaeth ar agor. Mae rhai adeiladau hanesyddol ble mae cadw pellter cymdeithasol yn amhosib yn dal ar gau.
Amgueddfa Genedlaethol Caerdyff	Chwech diwrnod yr wythnos. Ar gau ar ddydd Llun ag eithrio gŵyl y banc.	Mae system un-ffordd yn yr Amgueddfa. Mae arddangosfeydd, gan gynnwys <i>Artes Mundi 9 a Bywyd Richard Burton</i> bellach ar agor. Nodwch: Mae'r arddangosfa hon yn cau am 4pm. Ar hyn o bryd mae rhai o'r orielau celf – gan gynnwys ein oriel argraffiadol enwog - Canolfan Ddarganfod Clore, a'r profiad Realiti Rhithwir AR GAU.
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe	Mercher - Sul	Mae system un-ffordd yn yr Amgueddfa.
Amgueddfa Lechi Cymru, Llanberis	Mercher - Sul	Mae arddangosiadau hollti llechi ar gael ond gyda chapasiti cyfyngedig. Dyrennir seddi ar sail y cyntaf i'r felin ar y diwrnod.
Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Caerllion	Iau - Sadwrn	Mae system un-ffordd yn yr Amgueddfa. Mae'r Ystafell y Barics ar gau, ond gallwch ymweld a'r Oriol, yr Arddangosfa a'r Ardd Rufeinig
Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, Blaenafon	Iau - Sul	Ni fydd y Daith Danddaearol ar agor. Ond, gallwch gerdded trwy Brenin Glo: Y Profiad Cloddio ac ymweld a'r baddondai pen pwll sydd yn cynnwys pedwar gofod arddangos ac yn

		defnyddio gwrthrychau a delweddau i adrodd stori'r pyllau glo yng Nghymru.
Amgueddfa Wlân Cymru, Sîr Caerfyrddin	Iau - Sadwrn	Mae system un-ffordd yn yr Amgueddfa.

Niferoedd mewn Grŵp ac Ymddygiad

Gallwn groesawu un grŵp o ddim mwy na 30 o bobl (gan gynnwys gyrrwr, tywysydd ac ati) i bob un o'm hamgueddfeydd bob diwrnod (heblaw am Amgueddfa Wlân Cymru sydd â chapasiti o 20 ar gyfer grwpiau). Bydd pob archeb ar gyfer un cerbyd yn unig - h.y. ni allwn dderbyn dau fws yn cynnwys 10 person yr un.

Gofynnwn i bob aelod o'r grŵp ymddwyn fel unigolyn / aelwyd ar wahân, a dilyn y rheolau cyffredin ar ymbellhau cymdeithasol unwaith y maent wedi dod allan o'r cerbyd. Mae hyn yn golygu ciwio i fynd mewn fel unigolion neu aelwydydd ar wahân, ymddwyn fel unigolion neu aelwydydd ar wahân yn yr Amgueddfa, a dilyn rheolau ymbellhau cymdeithasol bob amser.

Cyfyngiadau Eraill

Er mwyn i ni allu agor yn ddiogel, rydym wedi gorfod cyflwyno cyfyngiadau, fel system un-ffordd a slot amser cyrraedd a gadael, yn rhai o'n hamgueddfeydd. **Mae hyn hefyd yn golygu na fydd rhai atyniadau poblogaidd ar gael. Mae hyn yn cynnwys y Teithiau Tanddaearol yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru.** Cynghorwn i chi wirio cyn archebu os oes arddangosfa neu brofiad penodol rydych am ei gynnig i ymwelwyr.

Iechyd a Diogelwch

Mae iechyd a diogelwch ein hymwelwyr a staff yn hollbwysig, ac rydym wedi gweithio'n galed i leihau risgiau COVID-19 yn ein Hamgueddfeydd:

- Mae ein staff blaen tŷ wedi derbyn hyfforddiant iechyd a diogelwch ynghylch COVID-19.
- Mae canllawiau diogelwch ymwelwyr mewn grym ar y safle
- Mae mesurau pellter cymdeithasol mewn grym ar y safle
- Mae gorsafoedd diheintio dwylo ar gael i ymwelwyr a staff.
- Bydd staff yn gwisgo gorchuddion wyneb, ac mewn rhai achosion feisors, wrth ddelio ag ymwelwyr.
- Rydym yn glanhau'r safle yn amlach
- Byddwn yn rheoli nifer ymwelwyr yn unol â chanllawiau iechyd a diogelwch y cyhoedd.
- Bydd rhai orielau/ardaloedd ar gau dros dro lle na ellir rhoi ymbellhau cymdeithasol ar waith.
- Rydym wedi gosod llwybrau newydd, fel system un-ffordd.

Mae pob un o'n Hamgueddfeydd wedi derbyn achrediad Good to Go gan Visit Britain.

Gorchudd wyneb

Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru, rhaid i bawb wisgo gorchudd wyneb dan do yn ein Hamgueddfeydd. Rydym yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i unrhyw un sydd ddim yn gwisgo gorchudd wyneb heb fod ganddynt reswm da, er enghraifft am resymau iechyd a lles.

Profi, Orlhain, Diogelu

Rydym yn cefnogi Strategaeth Llywodraeth Cymru i Brofi, Orlhain a Diogelu, sy'n gofyn i ni roi gwybod i ymwelwyr os ydym yn credu eu bod wedi dod i gysylltiad â rhywun sydd wedi profi'n bositif/yn dangos symptomau COVID-19. Er mwyn i ni ganiatáu archebion grŵp, rhaid i drefnydd y grŵp fod yn cefnogi'r cynllun Profi, Orlhain, Diogelu. Os oes digwyddiad sy'n golygu bod rhaid i ni gysylltu ag ymwelwyr o'r grŵp, byddwn yn pasio'r wybodaeth hon i drefnydd y grŵp.

Hoffem annog ymwelwyr i lawrlwytho App COVID-19 GIG ac i sganio'r codau QR wrth iddyn nhw ddod i mewn i'n hamgueddfeydd. Bydd y codau yn cael eu harddangos mewn manau cyhoeddus o amgylch ein hadeiladau.

Gofynnwn i unrhyw un o'r grŵp sy'n dangos unrhyw symptomau coronafeirws, neu sydd wedi dod i gysylltiad â rhywun sydd â'r feirws dros y 14 diwrnod diwethaf, i beidio dod i'r Amgueddfa, gan y gallem wrthod mynediad er mwyn lleihau'r risg i ymwelwyr eraill a'n staff.

Y Dyfodol

Fel y gallwch ddeall, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn newid yn rheolaidd, sy'n golygu y gallai fod angen gosod mwy - neu lai - o gyfyngiadau na sydd wedi'u nodi yn y datganiad hwn. Allwn ni ddim cymryd cyfrifoldeb ariannol neu fel arall os oes rhaid i ni ganslo eich ymweliad oherwydd COVID-19. Rydym yn argymhell eich bod yn ymweld â'n gwefan ni a gwefan Llywodraeth Cymru yn rheolaidd er mwyn cael gwybod am y canllawiau sydd mewn grym.

Edrychwn ymlaen at eich gweld chi a'ch cleientiaid eto cyn hir.

Gwasanaethau Ymwelwyr, Amgueddfa Cymru